CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

Wyt ti eisiau gwneud gwahaniaeth, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â phobl newydd?

Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yw llais annibynnol pobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau GIG. Rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr lleol sy'n ymddwyn fel llygaid a chlustiau'r claf a'r cyhoedd.

Rydym yn chwilio am bobl frwdfrydig i annog eraill i ddweud eu dweud am wasanaethau GIG, a bod yn gyswllt pwysig rhwng y rheiny sy'n cynllunio a chyflenwi gwasanaethau GIG, y rheiny sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio, a'r rheiny sy'n eu defnyddio.

Fe fydd dod yn aelod CIC yn dy alluogi di i:

- Dysgu sgiliau newydd
- Ennill profiad
- Gweithio fel rhan o dîm
- Gwneud gwir wahaniaeth yn dy gymuned leol.

Fel aelod CIC fe fyddi di'n:

- Ystyried materion iechyd o safbwynt y cyhoedd
- Siarad â phobl yn eu cymunedau am eu barnau am, a'u profiadau o wasanaethau GIG.
- Ymweld â gwasanaethau GIG lleol i glywed am brofiadau cleifion (a'r rheiny sy'n gofalu ac yn poeni amdanynt)
- Edrych ar gynlluniau a chynigion GIG lleol a chenedlaethol, i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cymunedau lleol
- Cwrdd yn rheolaidd gyda rheolwyr GIG, i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl leol.

Fe fyddi di'n derbyn hyfforddiant llawn a chefnogaeth i dy alluogi di i gyflawni dy rôl ac fe fydd unrhyw 'dreuliau parod', megis costau teithio, yn cael eu had-dalu.

Wyt ti eisiau gwybod mwy am ddod yn aelod CIC?

Dyma'r manylion cyswllt:

www.wales.gov.uk/publicappointments
02920 825 454

www.communityhealthcouncils.org.uk
02920 235 558

Os nad oes gennyt ddiddordeb, ystyria roddi'r daflen hon i rywun a all fod â diddordeb mewn dod yn aelod CIC, os gweli di'n dda.